

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

1/12/20

Cyfrwng: Teams

Presennol: Y Cyngorwyr Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Beryl Hughes Griffiths, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Cyhoedd: neb yn bresennol.

2164 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd datganiad o fuddiant ym mater cais cynllunio eitem 2172ii gan Beryl Hughes Griffiths.

2165 Cofnodion: Cytunwyd ar gywirdeb cyfarfod dros y we a gynhaliwyd ar Dachwedd 3ydd 2020.

2166 Materion y Clerc:

- i. Sedd wag: mae'r hysbyseb ar y wefan gyda'r dyddiad cau ar 18/12/2020.
- ii. Biniau halen – gofynnwyd am lenwi y rhai wrth Nantybarcud a Chwmonnen; mae'r biniau halen eraill yn llawn.
- iii. Trwsio'r wal wrth y fynwent – mae trefniant wedi ei wneud.
- iv. Mynediad at Garth Bach – cytunwyd i drafod y mater hwn yn y cyfarfod nesaf.

2167 Cyngor Gwynedd – Adroddodd y Cyngorydd Alan Jones Evans fod mater ardal y Bont Newydd yn derbyn sylw Cyngor Gwynedd. Mae mater parcio wrth ymyl fflatiau Maes y Pandy yn derbyn sylw Adran Rheoli Tir gan Adra.

2168 Sylfeini: Trafodwyd y sefyllfa bresennol ym Maes y Pandy. Mae'r safle sydd wedi ei gadw ar gyfer datblygu wedi gordyfu ac yn berygl wrth i blant ddod o'r parc chwarae. Cytunodd y Clerc i anfon at Cynefin am hyn.

2169 Adroddiadau Paneli:

- i. Panel y Nadolig: soniodd Heledd Jones am addurno'r pentref – dwy goeden a goleuadau ar y Neuadd trwy drefniant gyda Phwyllgor y Neuadd. Mae cystadleuaeth addurno ffenestr, gyda hamper yn wobwr. Bydd Sion Corn yn ymweld 21/12/20 (os bydd y tywydd yn caniatáu). Cytunwyd i ddiolch i Roger Lloches Don ac i Sion ac Owain Williams am gyfraniadau hael i'r Cyngor er budd y gymuned. Cytunwyd i roi cyfraniad i'r Ysgoldy os byddant yn rhoi plwg trydan tu allan. Diolchwyd i Eilir Thomas am ganiatáu trydan i'r goeden oddi wrth ei eiddo ef. Diolchwyd i Peter Roberts o Gyngor Gwynedd am sicrhau golau i'r goeden wrth y gilfach goffa. Ar ran y Cyngor diolchodd y Cadeirydd i bawb sydd wedi gweithio mor galed.
- ii. Cynllun Ardal: Adroddodd Huw Antur ar yr ymgynghori a fu gyda thrigolion, ac mae'n eglur fod llawer o bryder am gynnal gweithgareddau a chyfleoedd

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

cymdeithasol. Diolchwyd hefyd am grant gan Gronfa Gymunedol Parc Cenedlaethol Eryri i Brosiect Lleihau Unigedd – Cofnodi a Rhannu Straeon Llanuwchllyn (£356.65). Bydd hwn yn cael ei wario ar offer i'w rannu ymhlith pobol hŷn i gofnodi hanes, straeon, caneuon ac atgofion. Mae bwriad i greu teithiau i bob leol. Ond mae angen mwy o waith ar ochr socio-economaidd ac fe fydd ystadegau a gwybodaeth ar gael yn y cyfarfod nesaf i roi sail i gynllun datblygu'r ardal. Mae Beryl Hughes Griffiths wedi ymateb i'r galw am hysbysfwrdd sy'n agored i bawb ar Facebook ar gyfer Llanuwchllyn, a diolchwyd iddi am drefnu hyn.

- iii. Cyfleusterau: Adroddodd y Cadeirydd ar y gwaith sydd yn cael ei wneud ar y cyfleusterau. Cytunwyd gydag argymhelliad yr is bwyllgor: ***Bod y Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw a glanhau'r Cyfleusterau Cyhoeddus, gan ei fod yn gyfrifoldeb ar y Cyngor o dan y Cytundeb a wnaethpwyd gyda Chwmni Pum Plwy Penllyn cyf.***

2170 Adroddiadau Cynghorwyr:

- i. Eiddew yn tyfu dros yr yw ym mynwent yr Eglwys: mae brys i dorri bôn yr eiddew a chytunwyd i ofyn i gontractwr lleol wneud y gwaith ar fyrder oherwydd bod pwysau ar y coed yn beryglus uwchben y maes parcio.
- ii. Y Gaiman: Adroddodd Beryl Hughes Griffiths iddi fynegi parodrwydd i gyfeillio.

2171 Materion ariannol: Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol trwy e-bost.

Taliadau: Archwilydd mewnol £192.00; Mantell Gwynedd £290.00; Gwefan £150; CThEM a chyflog y Clerc.

Derbyniwyd Adroddiad Ariannol 2019-20 (BDO). Nid oedd materion yn codi a diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am ei gwaith.

Derbyniwyd gwybodaeth am y gwariant a ganiateir o dan Adran 137.

2172 Ceisiadau Cynllunio:

- i. **NP5/71/482** Uwchraddio toiledau cyhoeddus a chreu agoriad drws newydd i giwbicil yr anabl Toiledau Cyhoeddus, Llanuwchllyn. LL23 7TY – Cymeradwywyd y cais.
- ii. **NP5/71/405C** Adeiladu adeilad amaethyddol i gadw gwartheg Gwern Hefin, Llanycil. LL23 7YH – Cymeradwywyd (ni chafwyd ateb gan y Parc ynglyn ag union leoliad i datblygiad – Llanuwchllyn neu Llanycil).

2173 Materion lleol:

- i. Cytunodd Heledd Jones i gyd-gordio eitemau ar gyfer y Cwrdd Gweddi ar ddechrau'r flwyddyn a diolchwyd iddi am wneud. Bydd cyfarfod y Cyngor yn parhau ar Zoom yn dilyn y Cyfarfod Gweddi am 7.00pm.
- ii. Mae Swyddog y Fynwent wedi trefnu gyda Chyngor Gwynedd bod bin y fynwent yn cael ei gasglu.
- iii. Llwybr Cei: Mae hwn yn beryglus iawn erbyn hyn, yn arbennig pen yr Hen Gapel. Cytunodd y Clerc i anfon at y Prif Swyddog Llwybrau; bydd hwn yn fater i'r Is

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

bwyllgor cyllid i'w ystyried. Mae'r llwybr hwn wedi ei raddio yn A o ran pwysigrwydd oherwydd y defnydd uchel ohono. Mae'r gwreiddiau wedi gwneud difrod i'r llwybr ac mae angen sylwi'r ugain llath hwn.

Yn ddiweddar mae baw ci wedi dod yn broblem; cytunodd y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am gael bin baw ci ar dop y llwybr.

Tynnwyd sylw at erydiad i ran o Lwybr Tegid yn dilyn y llifogydd a dywedodd Huw Antur fod Gwersyll yr Urdd, Glanllyn, yn rhoi sylw i hyn.

Cytunodd Alan Jones Evans i holi pa mor debygol ydy bod Cyngor Gwynedd yn symud ymlaen gyda maes parcio Tŷ'n Ddôl.

- iv. Cytunodd Alan Jones Evans i drefnu fod y ffordd yn y pentref yn cael ei sguo.

2174 Gohebiaeth

- i. Cytunwyd i gefnogi Triathlon Y Bala Medi 4 a 5 2021.
- ii. Derbyniwyd cerdyn yn diolch am ddsbarthu'r bocsys bwyd ac am holl waith y Cyngor dros y gymuned.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am Grant Bioamrywiaeth gan swyddog sy'n awyddus i wneud gwaith cadwriaethol mewn mynwentydd; cyfeiriwyd y mater i sylw'r Gweinidog.
- iv. Derbyniwyd copi o Gyfrifon y Neuadd Bentref gyda diolch; y Cyngor Cymuned ydyw Ymddiriedolwyr y Neuadd.
- v. Nodwyd derbyn holiadur "Dweud eich dweud am lwybrau cerdded a beicio".
- vi. Derbyniwyd gwybodaeth am gyfle i uwchraddio parciau chwarae: mae gwagle ar gyfer adnodd arall ym mharc chwarae Maes y Pandy, ac mae angen sylw i rannau sy'n beryglus pan fo'n wlyb. Addawodd Alan Jones Evans drafod ymhellach gyda'r swyddog perthnasol.
- vii. Cadarnhawyd y trefniadau ar gyfer dosbarthu'r bocsys bwyd ar 2/12/20.

2175 Partneriaeth Penllyn – derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Zoom (trefniant y Gymdeithas Ddiwylliannol am 7.00pm) 5/1/2021